OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2006 No. 1293

## Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Cymru) 2006

## RHAN 1

Cyflwyniad

**Teitl, cymhwyso a chychwyn**

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Cymru) 2006; maent yn gymwys i Gymru ac yn dod i rym ar 12 Mai 2006.

**Dehongli**

**2.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn–

ystyr "arolygydd" ("*inspector*") yw person a benodir gan y Cynulliad Cenedlaethol neu gan awdurdod lleol i fod yn arolygydd at ddibenion y Rheoliadau hyn;

ystyr "awdurdod lleol" ("*local authority*") mewn perthynas â sir neu fwrdeistref sirol yw cyngor y sir neu'r fwrdeistref sirol honno;

ystyr "Cynulliad Cenedlaethol" ("*National Assembly*") ym Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

ystyr "Rheoliad y Gymuned" ("*the Community Regulation*") yw Rheoliad (EC) Rhif 1774/2002 Senedd Ewrop a'r Cygnor sy'n gosod rheolau iechyd ynghylch sgil-gynhyrchion anifeiliaid na fwriedir i bobl eu bwyta(**1**) fel y'i diwygiwyd gan y canlynol ac fel y'i darllenir gyda hwy–

(a) Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 808/2003 sy'n diwygio Rheoliad (EC) Rhif 1774/2002 Senedd Ewrop a'r Cygnor sy'n gosod rheolau iechyd ynghylch sgil-gynhyrchion anifeiliaid na fwriedir i bobl eu bwyta(**2**);

(b) Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 811/2003 sy'n gweithredu Rheoliad (EC) Rhif 1774/2002 Senedd Ewrop a'r Cygnor o ran gwahardd ailgylchu mewnrywogaethol ar gyfer pysgod, claddu a llosgi sgil-gynhyrchion anifeiliaid a mesurau trosiannol penodol(**3**);

(c) Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 813/2003 ar fesurau trosiannol o dan Reoliad (EC) Rhif 1774/2002 Senedd Ewrop a'r Cygnor o ran casglu, cludo a gwaredu cyn-fwydydd(**4**);

(ch) Penderfyniad y Comisiwn 2003/326/EC ar fesurau trosiannol o dan Reoliad (EC) Rhif 1774/2002 Senedd Ewrop a'r Cygnor o ran gwahanu gweithfeydd oleocemegol Categori 2 a Chategori 3(**5**);

(**1**) OJ Rhif L273, 10.10.2002, t.1.
(**2**) OJ Rhif L117, 13.5.2003, t.1.
(**3**) OJ Rhif L117, 13.5.2003, t.14.
(**4**) OJ Rhif L117, 13.5.2003, t.22.
(**5**) OJ Rhif L117, 13.5.2003, t.24.

(d) Penderfyniad y Comisiwn 2004/407/EC ar reolau iechydol ac ardystio trosiannol o dan Reoliad (EC) Rhif 1774/2002 Senedd Ewrop a'r Cygnor o ran mewnforio gelatin ffotograffig o drydydd gwledydd penodol(**6**);

(dd) Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 668/2004 sy'n diwygio Atodiadau penodol i Reoliad (EC) Rhif 1774/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor, o ran mewnforio sgil-gynhyrchion anifeiliaid o drydydd gwledydd (**7**);

(e) Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 878/2004 sy'n gosod mesurau trosiannol yn unol â Rheoliad (EC) Rhif 1774/2002 ar gyfer sgil-gynhyrchion anifeiliaid penodol a ddosberthir yn ddeunyddiau Categori 1 a 2 ac a fwriedir at ddibenion techchnegol(**8**);

(h) Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 79/2005 sy'n gweithredu Rheoliad (EC) Rhif 1774/2002 Senedd Ewrop a'r Cygnor o ran defnyddio llaeth, cynhyrchion ar sail llaeth a chynhyrchion sy'n deillio o laeth a ddiffinnir fel deunydd Categori 3 yn y Rheoliad hwnnw(**9**).

(ff) Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 92/2005 sy'n gweithredu Rheoliad (EC) Rhif 1774/2002 Senedd Ewrop a'r Cygnor o ran dulliau o waredu neu o ddefnyddio sgil-gynhyrchion anifeiliaid ac sy'n diwygio Atodiad VI y Rheoliad o ran trawsnewid bio-nwy a phrosesu brasderau wedi'u rendro(**10**);

(g) Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 93/2005 sy'n diwygio Rheoliad (EC) Rhif 1774/2002 Senedd Ewrop a'r Cygnor o ran prosesu sgil-gynhyrchion anifeiliaid sy'n dod o bysgod a dogfennau masnachol ar gyfer cludo sgil-gynhyrchion anifeiliaid(**11**);

(2) Y sgil-gynhyrchion anifeiliaid a geir yn Erthyglau 4, 5 a 6 o Reoliad y Gymuned yn y drefn honno yw'r deunydd Categori 1, y deunydd Categori 2 a'r deunydd Categori 3, ac mae i ymadroddion eraill a ddiffinnir yn Rheoliad y Gymuned yr un ystyr yn y Rheoliadau hyn.

**Cymeradwyaethau, etc.**

**3.** Rhaid i unrhyw gymeradwyaeth, awdurdodiad, cofrestriad, gyfarwyddyd hysbysiad neu gydnabyddiaeth a ddyroddir o dan y Rheoliadau hyn neu o dan Reoliad y Gymuned fod yn ysgrifenedig, a gallant fod yn ddarostyngedig i'r amodau sy'n angenrheidiol i

(a) sicrhau y cydymffurfir â darpariaethau Rheoliad y Gymuned a'r Rheoliadau hyn; a

(b) diogelu iechyd y cyhoedd ac iechyd anifeiliaid.

(**6**) OJ Rhif L117, 13.5.2003, t.42.
(**7**) OJ Rhif L151,30.4.2004, t.11 fel y"i cywirwyd gan Gorigendwm a gyhoeddwyd yn y Cylchgrawn Swyddogol yn OJ Rhif L208, 10.6.2004, t. 9 ac fel y"i cywirwyd ymhellach gan Gorigendwm a gyhoeddwyd yn y Cylchgrawn Swyddogol yn OJ Rhif L396, 31.12.2004, t.63.
(**8**) OJ Rhif L112, 19.4.2004, t.1.
(**9**) OJ Rhif L162, 30.4.2004, t 62.
(**10**) OJ Rhif L16, 20.1.2005, p.46.
(**11**) OJ Rhif L19, 21.1.2005, p.27.